| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad** | **24 Tachwedd 2015** |
| **Teitl** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd 2014-15** |
| **Pwrpas** | **Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor** |
| **Awdur** | **Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Swyddog Perthnasol** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

**1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.

**2.** I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith. Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Pwyllgor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

3. Mae rhai datblygiadau ynglŷn â gweithredu'r Cod Ymddygiad sydd yn werth tynnu sylw atynt yn benodol.

- Mae'r Ombwdsman wedi mabwysiadu prawf dau gam wrth bennu p'un a yw am ymchwilio neu barhau gydag ymchwiliad ynghylch torri'r Cod i'r pwynt o gyfeirio'r mater i Bwyllgor Safonau neu i Banel Dyfarnu Cymru. Yn y prawf dau gam newydd, yr ystyriaeth gyntaf fydd a oes tystiolaeth uniongyrchol o dorri'r cod. Os bodlonir y prawf tystiolaeth hwnnw, yna bydd yr Ombwdsmon yn bwrw ymlaen i ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad neu gyfeirio at Bwyllgor Safonau neu i Banel Dyfarnu Cymru er budd cyhoeddus. Mae'r Ombwdsmon yn amlinellu'r ffactorau budd cyhoeddus y bydd yn eu hystyried, sy'n cynnwys:-

  - Pa mor ddifrifol yw'r torri cod?
  - P'un a wnaeth Aelodau geisio budd personol iddyn nhw eu hunain neu rywun arall ar draul y cyhoedd.
  - A gamddefnyddiwyd safle o ymddiriedaeth neu awdurdod ac a achoswyd niwed i berson?
  - Ai gwahaniaethu oedd y cymhelliant i dorri'r cod?
  - A oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol gan Aelod?
  - A oes angen ymchwilio er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn Aelodau Etholedig?

    - A yw ymchwilio yn ymateb cymesur (sy’n debygol o arwain at gosb).

- Mae achosion Llys lled ddiweddar hefyd wedi rhoi goleuni pellach ar ffiniau’r Cod wrth ystyried sylwadau gan aelodau. Cyfeirir at y materion hyn yn benodol yng nghyd-destun paragraffau 6(1)(a) - anfri a 4(b) - trin â pharch ac ystyriaeth. Yng nghanllawiau diwygiedig yr Ombwdsman atgoffir Aelodau bod gofyn i Aelod gael “croen mwy trwchus” ac, oni bai bod sylwadau gwleidyddol yn hynod o sarhaus neu warthus, mae’n annhebygol o ymchwilio i gwynion a wneir gan Aelodau, p'un a yw hynny yn Siambr y Cyngor neu rywle arall. Ar y llaw arall, gellir ystyried beirniadaeth annheg ac anghywir o’r Awdurdod mewn arena gyhoeddus neu e-bost neu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol sy’n amhriodol fel dwyn anfri ar swydd Aelod, a allai deilyngu ymchwiliad.

**Argymhelliad**

Derbyn yr adroddiad

**Dogfen Cefndir**

Canllawiau'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Mawrth 2015